

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

20 Mawrth 2023

SL(6)331 – Rheoliadau Diodydd Alcoholaidd (Diwygio) (Cymru) 2023

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r UE a ddargedwir sy'n ymwneud â labelu cynnwys alcohol ac amryfal fathau o rawnwin ar gyfer gwin er mwyn ystyried gofynion a bennwyd yn Atodiad 7A (Gwin a Gwirodydd Distyll) i'r Cytundeb Masnach Rydd rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Seland Newydd (y Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU a Seland Newydd). Nod y ddeddfwriaeth yw sicrhau bod y DU yn cydymffurfio ag atodiad 7A i'r Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU a Seland Newydd.

I weithredu'r newidiadau y cytunwyd arnynt yn y Cytundeb Masnach Rydd rhwng Teyrnas Unedig Prydain a Gogledd Iwerddon a Seland Newydd, mae angen i Lywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth a fydd yn diwygio'r Gyfraith berthnasol yr UE a ddargedwir.

Rhiant-Ddeddf: Deddf Diogelwch Bwyd 1990, deddf Amaethyddiaeth 2020

Fe'u gwnaed ar: Heb ei nodi

Fe'u gosodwyd ar: Heb ei nodi

Yn dod i rym ar: 28 Ebrill 2023



Senedd Cymru
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
—
Welsh Parliament
Legislation, Justice and Constitution Committee

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

20 Mawrth 2023

SL(6)334 – Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu **(Rhagdybiaethau Rhagnodedig) (Cymru) 2023**

Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Treth leol yw ardrethi annomestig sy'n codi refeniw ar eiddo a ddefnyddir at ddibenion annomestig, er enghraifft adeiladau cyhoeddus, siopau, ffatrïoedd, swyddfeydd, cyfleusterau hamdden, ysgolion ac ysbytai.

Caiff talwyr ardrethi apelio ar sail newid perthnasol mewn amgylchiadau (MCC), gyda golwg ar leihau gwerth ardrethol eu heiddo, ac yn ei dro eu hatebolrwydd ar gyfer ardrethi annomestig. Yn ystod y pandemig COVID-19, bu cynnydd yn nifer yr apeliadau MCC a gyflwynwyd, ar y sail bod effaith mesurau a chyfyngiadau'r llywodraeth yn lleihau gwerthoedd ardrethol eiddo. Nid oedd hyn yn cyd-fynd â bwriad polisi'r ddeddfwriaeth bresennol. I fynd i'r afael â hyn mewn perthynas â rhestr ardrethu 2017 ac amgylchiadau penodol y pandemig COVID-19, gwnaed Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021, ac yna, i fynd i'r afael â'r mater yn ôl-weithredol, pasiwyd Deddf Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwysio Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd) 2021.

Amlygodd hyn risg ehangach o ran rhestrau ardrethu yn sgil diffyg eglurder ynghylch cwrpas bwriadedig darpariaethau MCC ar gyfer diweddarau gwerthoedd ardrethol eiddo rhwng ailbrisiadau. Mae'r Rheoliadau hyn yn egluro'r rhagdybiaethau sydd i'w gwneud wrth ganfod gwerth ardrethol hereditament yn unol â pharagraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Mae'r Rheoliadau yn gymwys i restrau ardrethu 2023 ymlaen.

Rhiant-Ddeddf: Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988

Fe'u gwnaed ar: 03 Mawrth 2023

Fe'u gosodwyd ar: 07 Mawrth 2023

Yn dod i rym ar: 01 Ebrill 2023



Senedd Cymru
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
—
Welsh Parliament
Legislation, Justice and Constitution Committee